Oes gennych ymwelwyr digroeso y tymor ysgol hwn? Angen gwybod mwy am sut i drin Llau Pen?

Annwyl gyfaill

Gydag achosion llau pen yn parhau i fod yn broblem barhaus ymysg plant ysgol gynradd, oeddech chi'n gwybod y gallwch ymweld â gwefan Galw Iechyd Cymru i gael cyngor a gwybodaeth bellach?

Er mwyn helpu rhieni ac athrawon gael gwybod sut orau i drin Llau Pen, mae yna Gwiriwr Symptomau Llau Pen ar gael, ar-lein, ar wefan Galw Iechyd Cymru: www.nhsdirect.wales.nhs.uk

Yn addas i blant dros 2 flwydd oed, mae'r gwiriwr symptomau yn gofyn cyfres o gwestiynau ac yn rhoi cyngor ar beth i'w wneud nesaf, yn seiliedig ar yr atebion a ddarperir. Gall hyn cynnwys ymweld â'ch Fferyllfa lleol neu cyngor hunan-ofalu i'ch helpu trin llau pen yn y cartref. Mae yna hefyd gwybodaeth ychwanegol am llau pen ar gael trwy ein gwyddoniadur ar-lein.

"Diolch yn fawr! Adnodd ardderchog, hen bryd cael y wybodaeth cyfan ar-lein. Byddaf yn bendant yn ei basio ymlaen i fy holl ysgolion" Nyrs Arbenigol Ysgol.

Cliciwch yma i ymweld â'n gwiriwr sympromau llau pen.
Cliciwch yma i ddarllen mwy am Llau Pen.